

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
OFFERYNNAU**

STATUDOL

2001 Rhif (Cy.)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau
Marchnata) (Cymru) 2001
NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgyfnerthu ac yn disodli Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) 1995, fel y'u diwygiwyd, mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi a gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 577/97 sy'n gosod rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 ar gyfer amddiffyn dynodiadau a ddefnyddir wrth farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth, fel y'u diwygiwyd. Nodir pwnc y darpariaethau Cymunedol yn fyr yng nghlofn 3 o Atodlen 1. Cafodd Rheoliad y Comisiwn ei ddiwygio ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 568/1999 sy'n caniatáu defnyddio'r dynodiad "brandy butter", "sherry butter" neu "rum butter" am gynnyrch alcoholig wedi'i felysu sy'n cynnwys o leiaf 20% o fraster-llaeth.

Yn unol ag Erthygl 6 o Reoliad EEC 2991/94, mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu gofynion o ran cynnwys fitaminau mewn margarîn (rheoliad 4), yn ddarostyngedig i esemptiad (rheoliad 3(2)). Mae'r Rheoliadau hyn –

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY

INSTRUMENTS

2001 No. (W.)

FOOD, WALES

**The Spreadable Fats (Marketing Standards)
(Wales) Regulations 2001
EXPLANATORY NOTE**

(This note does not form part of the Regulations)

These Regulations consolidate and replace the Spreadable Fats (Marketing Standards) Regulations 1995, as amended, in relation to Wales.

These Regulations continue to make provision for the enforcement and execution of Council Regulation (EC) No. 2991/94 laying down standards for spreadable fats and Commission Regulation (EC) No. 577/97 laying down certain detailed rules for the application of the Council Regulation and of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 on the protection of designations used in the marketing of milk and milk products, as amended. The subject matter of the Community provisions is briefly indicated in column 3 of Schedule 1. The Commission Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No. 568/1999 which allows use of the designation "brandy butter", "sherry butter" or "rum butter" for a sweetened, alcoholic product with a minimum milk-fat content of 20%.

In pursuance of Article 6 of EEC Regulation 2991/94, these Regulations re-enact requirements as to the vitamin content of margarine (regulation 4), subject to an exemption (regulation 3(2)).

These Regulations –

(a) yn pennu'r awdurdodau sydd i orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn a'r darpariaethau Cymunedol y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 (rheoliad 5);

(b) yn creu tramgwyddau ac yn rhagnodi cosb (rheoliad 6) ac yn cynnwys esemptiad cyfyngedig mewn perthynas ag unrhyw fraster taenadwy y mae Cytundeb yr EEA yn gymwys iddo ac a ddygir i Gymru o un o Wladwriaethau'r EEA heblaw Aelod-wladwriaeth naill ai'n uniongyrchol neu drwy ran arall o'r Deyrnas Unedig (rheoliad 3(1));

(c) yn darparu amddiffyniad mewn perthynas ag allforion, yn unol ag Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/397/EEC (OJ Rhif L186, 30.6.89, t.23) ar reoli bwydydd yn swyddogol, fel y'u darllenir ynghyd â'r nawfed cronicliad yn y Gyfarwyddeb honno (rheoliad 7);

(ch) yn cynnwys darpariaethau penodedig o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 8); a

(d) yn diddymu'r Rheoliadau a bennir yn Atodlen 2 o ran Cymru (rheoliad 9).

(a) specify the authorities which are to enforce and execute these Regulations and the Community provisions referred to in Schedule 1 (regulation 5);

(b) create offences and prescribe a penalty (regulation 6) and contain a limited exemption in respect of any spreadable fat to which the EEA Agreement applies and which is brought into Wales from an EEA State other than a member State either directly or via another part of the United Kingdom (regulation 3(1));

(c) provide a defence in relation to exports, in accordance with Articles 2 and 3 of Council Directive 89/397/EEC (OJ No. L186, 30.6.89, p.23) on the official control of foodstuffs, as read with the ninth recital to that Directive (regulation 7);

(d) incorporate specified provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 8); and

(e) revoke the Regulations specified in Schedule 2 as regards Wales (regulation 9).

Mae defnyddio'r dynodiad "butter" hefyd wedi'i gyfyngu gan Erthygl 3 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 (OJ Rhif L182, 3.7.87, t. 36), a orfodir yng Nghymru gan Reoliadau Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Amddiffyn Dynodiadau) 1990 (O.S. 1990/607, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2486).

Use of the designation "butter" is also restricted by Article 3 of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 (OJ No. L182, 3.7.87, p. 36), which is enforced in Wales by the Milk and Milk Products (Protection of Designations) Regulations 1990 (S.I. 1990/607, as amended by S.I. 1990/2486).

OFFERYNNAU

STATUDOL

2001 Rhif (Cy.)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau
Marchnata) (Cymru) 2001**

Wedi'u gwneud 2001

Yn dod i rym 1 Mai 2001

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1), 17 (2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(a) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar **1 Mai 2001**

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn –

STATUTORY

INSTRUMENTS

2001 No. (W.)

FOOD, WALES

**The Spreadable Fats (Marketing Standards)
(Wales) Regulations 2001**

Made 2001

Coming into force 1 May 2001

In exercise of the powers conferred by sections 16(1), 17(2), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990 (a) and now vested in the National Assembly for Wales (b), the National Assembly for Wales, having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act, makes the following Regulations:

Title, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on **1 May 2001**.

(2) These Regulations shall apply to Wales.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations –

ystyr "adwerthu" ("*sell by retail*") yw gwerthu i berson sy'n prynu heblaw ar gyfer ailwerthu;

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys -

(a) cyngor dosbarth mewn sir anfetropoiltanaidd ac eithrio lle trosglwyddwyd y swyddogaethau sirol i'r cyngor hwnnw yn unol â newid strwythurol; na

(b) y Trysorydd priodol y cyfeirir ato yn adran 5(1)(c) o'r Ddeddf (sy'n ymdrin â'r Deml Fewnol a'r Deml Ganol);

ystyr "Darpariaeth gymunedol" ("*Community Provision*") yw darpariaeth yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn y cyfeirir ato yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, fel y'u darllenir ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth atodol y cyfeirir ati yng ngholofn 2 gyferbyn â'r cyfeiriad yng ngholofn 1;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Cytundeb yr EEA" ("*EEA Agreement*") yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(c) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y'i haddaswyd gan y Protocol(ch) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "fitamin A" ("*vitamin A*") yw fitamin A sydd yn bresennol fel y cyfryw neu ar ffurf ei esterau ac mae'n cynnwys beta-caroten ar y sail bod 6 microgram o feta-caroten neu 12 microgram o garotenoidau actif biolegol eraill yn hafal i 1 microgram o sylwedd sy'n gyferwerth â retinol;

ystyr "fitamin D" ("*vitamin D*") yw'r

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"the Commission Regulation" ("*Rheoliad y Comisiwn*") means Commission Regulation (EC) No. 577/97(c) laying down certain detailed rules for the application of the Council Regulation and of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 on the protection of designations used in the marketing of milk and milk products, as amended by Commission Regulation (EC) No. 1278/97(d), Commission Regulation (EC) No. 2181/97(e), Commission Regulation (EC) No. 623/98(f), Commission Regulation (EC) No. 1298/98(g), Commission Regulation (EC) No. 2521/98(h) and Commission Regulation (EC) No. 568/1999(i);

"Community provision" ("*Darpariaeth gymunedol*") means a provision of the Council Regulation or the Commission Regulation which is referred to in column 1 of Schedule 1 to these Regulations, as read with any supplementary provision referred to in column 2 thereof opposite the reference in column 1;

"the Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 2991/94(j) laying down standards for spreadable fats;

"EEA Agreement" ("*y Cytundeb EEA*") means the Agreement on the European Economic Area(k) signed at Oporto on 2nd May 1992 as adjusted by the Protocol(l) signed at Brussels on 17th March 1993;

"EEA State" ("*Gwladwriaeth EEA*") means a State which is a Contracting Party to the EEA Agreement;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") does not include -

fitaminau gwrthlechog;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddiannu i werthu, a chynnig, amlygu neu hysbysebu i werthu

ystyr "Gwladwriaeth EEA" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n Barti Contractio Cytundeb yr EEA;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 577/97(**d**) sy'n gosod rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 ar amddiffyn dynodiadau a ddefnyddir wrth farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1278/97(**dd**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2181/97(**e**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 623/98(**f**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1298/98(**g**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2521/98 (**ng**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 568/1999(**h**);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94(**j**) sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy.

(a) the council of a district in a non-metropolitan county except where the county functions have been transferred to that council pursuant to a structural change; or

(b) the appropriate Treasurer referred to in section 5(1) (c) of the Act (which deals with the Inner Temple and the Middle Temple);

"sell" ("*gwerthu*") includes possess for sale, and offer, expose or advertise for sale;

"sell by retail" ("*adwerthu*") means sell to a person buying otherwise than for the purpose of re-sale;

"vitamin A" ("*fitamin A*") means vitamin A present as such or as its esters and includes beta-carotene on the basis that 6 micrograms of beta-carotene or 12 micrograms of other biologically active carotenoids equal 1 microgram of retinol equivalent;

"vitamin D" means the anti-rachitic vitamins.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn a hefyd yn Rheoliad y Cyngor neu Reoliad y Comisiwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rheoliad y Cyngor neu yn Rheoliad y Comisiwn.

(2) Other expressions used both in these Regulations and in the Council Regulation or the Commission Regulation have the same meaning in these Regulations as they have in the Council Regulation or the Commission Regulation.

Esemptiadau

Exemptions

3.-(1) Ac eithrio lle mae paragraff (2) isod yn gymwys, oni bai a hyd nes y ceir penderfyniad gan Gyd-bwyllgor yr EEA o dan Erthygl 98 o'r Cytundeb EEA i'w diwygio i gyfeirio at Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn, ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fraster taenadwy y mae Cytundeb yr EEA yn gymwys iddo ac –

(a) a ddygir i Gymru –

(i) o un o Wladwriaethau'r EEA (heblaw Aelod-wladwriaeth) y cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithiol ynddi, neu

(ii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig os dygwyd y braster taenadwy hwnnw yno o Wladwriaeth EEA o'r fath; a

(b) sydd wedi'i labelu'n briodol i ddangos natur y braster taenadwy.

(2) Ni fydd Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fargarin –

(a) a ddygir i Gymru –

3.-(1) Except where paragraph (2) below applies, unless and until there is a decision by the EEA Joint Committee under Article 98 of the EEA Agreement to amend it to refer to the Council Regulation and the Commission Regulation, these Regulations shall not apply in respect of any spreadable fat to which the EEA Agreement applies and which –

(a) is brought into Wales –

(i) from an EEA State (other than a member State) in which it was lawfully produced and sold, or

(ii) from another part of the United Kingdom if that spreadable fat was brought there from such an EEA State; and

(b) is suitably labelled to indicate the nature of the spreadable fat.

(2) Regulation 4 of these Regulations shall not apply in respect of any margarine which –

(a) is brought into Wales –

(i) o un o Wladwriaethau'r EEA (heblaw'r Deyrnas Unedig) y cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithiol ynddi,

(ii) o Aelod-wladwriaeth (heblaw'r Deyrnas Unedig) yr oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithiol ynddi, neu

(iii) o ran arall o'r Deyrnas Unedig lle cafodd ei gynhyrchu a'i werthu'n gyfreithiol neu lle'r oedd mewn cylchrediad rhydd ac yn cael ei werthu'n gyfreithiol; a

(i) from an EEA State (other than the United Kingdom) in which it was lawfully produced and sold,

(ii) from a member State (other than the United Kingdom) in which it was in free circulation and lawfully sold, or

(iii) from another part of the United Kingdom in which it was lawfully produced and sold or in which it was in free circulation and lawfully sold; and

(b) sydd wedi'i labelu'n briodol i ddangos natur y margarîn.

(b) is suitably labelled to indicate the nature of the margarine.

(3) At ddibenion paragraff (2) uchod, mae i "cylchrediad rhydd" yr un ystyr ag sydd i "free circulation" yn Erthygl 23(2) o'r Cytuniad sy'n sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd.

(3) For the purposes of paragraph (2) above, "free circulation" has the same meaning as in Article 23 (2) of the Treaty establishing the European Community.

Cynnwys fitaminau mewn margarîn

Vitamin content of margarine

4.-(1) Rhaid i unrhyw fargarîn a adwerthir gynnwys ym mhob 100 gram o'r margarîn hwnnw –

(a) dim llai nag 800 microgram a dim mwy na 1000 microgram o fitamin A, a

(b) dim llai na 7.05 microgram a dim mwy nag 8.82 microgram o fitamin D,

a swm cymesur mewn unrhyw ran o 100 gram.

(2) Ni chaiff neb adwerthu unrhyw fargarîn yn groes i'r rheoliad hwn.

Gorfodi

5. Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r darpariaethau Cymunedol a'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal .

Tramgwyddo a chosbi

6. Os bydd unrhyw berson yn torri neu'n methu cydymffurfio –

(a) â rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn, neu

(b) ag unrhyw ddarpariaeth Gymunedol,

bydd yn euog o dramgwydd a bydd yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Amddiffyniad mewn perthynas ag allforion

7. Mewn unrhyw achos o dan reoliad 6(b) o'r Rheoliadau hyn bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi –

4.-(1) Any margarine sold by retail shall contain in every 100 grams of such margarine –

(a) not less than 800 micrograms and not more than 1000 micrograms of vitamin A, and

(b) not less than 7.05 micrograms and not more than 8.82 micrograms of vitamin D,

and a proportionate amount in any part of 100 grams.

(2) No person shall sell by retail any margarine in contravention of this regulation.

Enforcement

5. Each food authority shall enforce and execute within its area the Community provisions and these Regulations.

Offences and penalty

6. If any person contravenes or fails to comply with –

(a) regulation 4 of these Regulations, or

(b) any Community provision,

he shall be guilty of an offence and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Defence in relation to exports

7. In any proceedings under regulation 6(b) of these Regulations it shall be a defence for the person charged to prove –

(a) bod y bwyd yr honnir fod y tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef wedi'i fwriadu ar gyfer ei allforio i wlad sydd â deddfwriaeth sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a

(b) bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn yn achos –

(a) that the food in respect of which the offence is alleged to have been committed was intended for export to a country which has legislation analogous to these Regulations and that it complies with that legislation; and

(b) that the legislation complies with the Council Regulation and the Commission Regulation in the case of –

(i) allforio i Aelod-wladwriaeth, neu

(i) export to a member State, or

(ii) pan fydd yna benderfyniad gan Gydbwyllgor yr EEA o dan Erthygl 98 o Gytundeb yr EEA i'w diwygio i gyfeirio at Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn, allforio i un o Wladwriaethau'r EEA nad yw'n Aelod-wladwriaeth.

(ii) where there is a decision of the EEA Joint Committee under Article 98 of the EEA Agreement to amend it to refer to the Council Regulation and the Commission Regulation, export to an EEA State which is not a member State.

Cymhwyso amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf

Application of various provisions of the Act

8.-(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu ran ohoni at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn –

adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);

adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15;

adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes);

adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

adran 35(1) i (3) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) a (2);

adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol).

(2) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf at ddibenion y Rheoliadau hyn fel eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y darpariaethau Cymunedol –

adran 32 (pwerau mynediad);

adran 33 (rhwystro etc. swyddogion);

adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Diddymu

8.-(1) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations and, unless the context otherwise requires, any reference in those provisions to the Act or Part thereof shall be construed for the purposes of these Regulations as a reference to these Regulations –

section 2 (extended meaning of "sale" etc.);

section 3 (presumptions that food is intended for human consumption);

section 20 (offences due to fault of another person);

section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of section 8, 14 or 15;

section 22 (defence of publication in the course of a business);

section 30(8) (which relates to documentary evidence);

section 35(1) to (3) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33(1) and (2);

section 36 (offences by bodies corporate).

(2) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations and, unless the context otherwise requires, any reference in those provisions to the Act shall be construed for the purposes of these Regulations as including a reference to the Community provisions –

section 32 (powers of entry);

section 33 (obstruction etc. of officers);

section 44 (protection of officers acting in good faith).

Revocations

9. Diddymir drwy hyn y Rheoliadau a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998^(*).

[] 2001

Llywydd y Cynulliad

Cenedlaethol

9. The Regulations specified in Schedule 2 to these Regulations are hereby revoked in so far as they apply to Wales

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998^(*).

[] 2001

The Presiding Officer

of the National Assembly

ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

Y DARPARIAETHAU CYMUNEDOL

<i>Y Ddarpariaeth Gymunedol</i>	<i>Darpariaethau atodol</i>	<i>Y Pwnc</i>
1. Rheoliad y Cyngor :		
(a) Erthygl 2	Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor ac Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad I iddo	Cyfyngiadau ar farchnata brasterau taenadwy
(b) Erthygl 3	Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn ac Atodiad II iddo	Gofynion ynghylch labelu a chyflwyno brasterau taenadwy
(c) Erthygl 4		Cyfyngu ar ddefnyddio'r term "traditional" gyda'r enw "butter"
(ch) Erthygl 5		Cyfyngu ar ddefnyddio termau ynghylch cynnwys braster
(d) Erthygl 7		Gofynion ynghylch brasterau a fewnforir o drydydd gwledydd
2. Rheoliad y Comisiwn: Erthygl 3		Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r dynodiad "butter" ar gyfer cynhyrchion cyfansawdd

SCHEDULE 1 Regulation 2(1)**COMMUNITY PROVISIONS**

<i>Community provision</i>	<i>Supplementary provisions</i>	<i>Subject matter</i>
1. The Council Regulation :		
(a) Article 2	Article 1 of the Council Regulation and Article 1 of, and Annex I to, the Commission Regulation	Restrictions on marketing of spreadable fats
(b) Article 3	Article 2 of, and Annex II to, the Commission Regulation	Requirements relating to the labelling and presentation of spreadable fats
(c) Article 4		Restriction on use of the term "traditional" with the name "butter"
(d) Article 5		Restriction on use of terms relating to fat content
(e) Article 7		Requirements relating to fats imported from third countries
2. The Commission Regulation : Article 3		Restrictions on use of the designation "butter" for composite products

ATODLEN 2 Rheoliad 9**DIDDYMIADAU**

<i>Rheoliadau a ddiddymir</i>	<i>Cyfeiriadau</i>
Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) 1995	O.S. 1995/3116.
Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Diwygio) 1998	O.S. 1998/452.

Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Rhif 2) 1998	O.S. 1998/2538.
Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) 1999	O.S. 1999/540.

SCHEDULE 2 Regulation 9

REVOCATIONS

<i>Regulations revoked</i>	<i>References</i>
The Spreadable Fats (Marketing Standards) Regulations 1995	S.I. 1995/3116.
The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Amendment) Regulations 1998	S.I. 1998/452.
The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Amendment) (No. 2) Regulations 1998	S.I. 1998/2538.
The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Amendment) Regulations 1999	S.I. 1999/540.

[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]

(a) 1990 p.16

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, I Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

(c) OJ No. L87, 2.4.97, t.3.

(ch) OJ No. L175, 3.7.97, t.6.

(d) OJ No. L299, 4.11.97, t.1.

(dd) OJ No.L85, 20.3.98, t.3.

(e) OJ No. L180, 24.6.98, t.5.

(a) 1990 c.16.

(b) Functions of "the Ministers" under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

(c) OJ No. L87, 2.4.97, p.3.

(d) OJ No. L175, 3.7.97, p.6.

(e) OJ No. L299, 4.11.97, p.1.

(f) OJ No.L85, 20.3.98, p.3.

(g) OJ No. L180, 24.6.98, p.5.

(f) OJ No. L315, 25.11.98, t.12.

(ff) OJ No. L70, 17.3.1999, t.11.

(g) OJ No. L316, 9.12.94, t.2.

(ng) OJ No. L1, 3.1.94, t.1.

(h) OJ No. L1, 3.1.94, t.571.

(i) 1998 p.38.

(h) OJ No. L315, 25.11.98, p.12.

(i) OJ No. L70, 17.3.1999, p.11.

(j) OJ No. L316, 9.12.94, p.2.

(k) OJ No. L1, 3.1.94, p.1.

(l) OJ No. L1, 3.1.94, p.571.

(m) 1998 c.38.